



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylch Gwaith Tîm Rheoli Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Cynnwys

1	Nod Tîm Rheoli Comisiynydd y Gymraeg	1
	Tryloywder o ran anweithiau posibl gan y Comisiynydd: Rôl y Tîm Rheoli	1
	Aelodaeth y Tîm Rheoli	1
	Amllder y cyfarfodydd	1
2	Cyfrifoldebau'r Tîm Rheoli	1
	Penderfyniadau a wneir yn unig gan Gomisiynydd y Gymraeg	3

1 Nod Tîm Rheoli Comisiynydd y Gymraeg

- 1.1 Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.
- 1.2 Gwneir hyn drwy ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth gadarn a chyngor ynghylch y dulliau gorau o weithredu; paratoi a monitro Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredol y Comisiynydd a meddu ar orolwg o'r modd y mae swyddogion yn cyflawni'r gwaith hwnnw.
- 1.3 Yn y pen draw, y Tîm Rheoli yw'r brif fforwm (wedi ei chefnogi'n briodol gan grwpiau eraill) ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllunio strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad. Mae rôl y Tîm Rheoli o ran penderfyniadau yn cydnabod, ar adegau, y bydd rhai materion y mae'r Comisiynydd ei hun yn penderfynu arnynt.

Tryloywder o ran anweithiau posibl gan y Comisiynydd: Rôl y Tîm Rheoli

- 1.4 Mae gan aelodau'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb penodol i weithredu os ydynt yn credu bod y Comisiynydd yn gweithredu'n anghyfreithlon neu'n groes i'w ddyletswyddau. Bwriad y cyfrifoldeb hwn yw rhoi sicrwydd eglur a thryloyw i Weinidogion Cymru a'r cyhoedd y bydd safonau uchel y Swydd hon yn cael eu diogelu.

Aelodaeth y Tîm Rheoli

- **Cadeirydd:** Comisiynydd y Gymraeg
- **Aelodaeth:** Cyfarwyddwyr Comisiynydd y Gymraeg

Amllder y cyfarfodydd

- 1.5 Fel arfer bydd dau gyfarfod o'r Tîm Rheoli'n cael ei gynnal bob mis.

2 Cyfrifoldebau'r Tîm Rheoli

- 2.1 Cyfrifoldeb y Tîm Rheoli yw cynorthwyo'r Comisiynydd i osod cyfeiriad a chynnal gorolwg strategol dros y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol, gan gynnwys hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.2 Mae'r Mesur yn rhoi nifer o swyddogaethau a phwerau penodol i'r Comisiynydd. Rhaid, er enghraifft, i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a gall gynnal ymholiadau i unrhyw fater yn ymwneud â'i swyddogaethau. Gall gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac mae gan y Comisiynydd bwerau lled farnwrol i ddyfarnu ar achosion. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau ehangach hefyd, gan gynnwys:
 - annog sefydliadau i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
 - cadw'r gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
 - llunio a chyhoeddi adroddiadau

- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
- rhoi cyngor i unrhyw berson.

- 2.3 Darparu gwybodaeth, cyngori a chynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg wrth weithredu ei holl ddyletswyddau cyffredinol, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau, ac wrth gynnal ei weithgareddau.
- 2.4 Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu ar ei fwyaf effeithiol ac yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y Tîm Rheoli yn gyfrifol am fonitro gweithrediad cynllun strategol a chynllun gweithredol Comisiynydd y Gymraeg a bydd yn derbyn adroddiadau cynnydd a chyllid yn rheolaidd.
- 2.5 Cytuno Cynllun Gweithredol blynyddol Comisiynydd y Gymraeg, yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol y Comisiynydd. Bydd y Cynllun yn cynnwys cerrig milltir manwl a bydd yn sail i gynllun gwaith unigol pob swyddog.
- 2.6 Derbyn a thrafod adroddiadau cyllid misol.
- 2.7 Cytuno negeseuon allanol allweddol Comisiynydd y Gymraeg. Cytuno ar drefniadau i addysgu swyddogion ynghylch gofynion Comisiynydd y Gymraeg a sicrhau eglurder cyfeiriad fel bod gan swyddogion ddigon o wybodaeth i wneud eu gwaith.
- 2.8 Rhoi cyfleoedd i swyddogion gyfrannu cynigion ynghylch dulliau gweithredu.
- 2.9 Goruchwylio trefniadau cynllunio swyddogion i sicrhau bod y Cynllun Gweithredol yn cael ei gyflwyno.
- 2.10 Cytuno, gweithredu, monitro ac adrodd ar wariant a thargedau.
- 2.11 Cynnig adborth ar bapurau a meysydd gwaith timoedd unigol.
- 2.12 Adolygu cynnwys ac adroddiadau ar Gofrestr Risg y Comisiynydd (mae un o'r Uwch Swyddogion wedi eu penodi'n Rheolwr Risg).
- 2.13 Sicrhau bod polisiau mewnol cyffredinol a rheolaeth briodol yn eu lle a sicrhau gwerth gorau am arian cyhoeddus.
- 2.14 Craffu ar drefniadau rheoli perfformiad ac adnoddau dynol.
- 2.15 Trafod a chytuno er penderfyniad neu nodi er gwybodaeth, y drafftiau o'r dogfennau canlynol:
 - Monitro cynnydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol;
 - Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol;
 - Cyllidebau blynyddol;
 - Adroddiad Pum Mlynedd;
 - Polisi Risg a Chofrestr Risg;
 - Polisi Gorfodi;
 - Datganiadau o farn, cyngor neu sylw;
 - Argymhellion o unrhyw fath;

- Gwaith Ymchwil;
- Adroddiad chwarterol ar feysydd gwaith
- Cyfarfodydd adrodd cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol

Penderfyniadau a wneir yn unig gan Gomisiynydd y Gymraeg

- 2.16 Mae prosesau statudol i'w dilyn wrth i'r Comisiynydd fynd ati i arfer rhai o'i swyddogaethau, er enghraifft nid yw penderfyniadau Gorfodi wedi eu dirprwyo i swyddogion. Y Comisiynydd ei hun felly sy'n gwneud pob penderfyniad a nodir yn rhai o'i eiddo yn Rhannau 4 – 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 2.17 Y Panel Ymchwilio a Gorfodi yw'r fforwm gwneud penderfyniadau yng nghyswllt penderfyniadau Rhan 5 a 6 Mesur y Gymraeg (Cymru 2011).
- 2.18 Mae Pennod 7, Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu mecanwaith er mwyn galluogi i bersonau perthnasol herio'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad cydymffurfio, a hynny cyn neu ar ôl i'r dyddiad gosod ddod i rym. Y Comisiynydd fydd yn dyfarnu ar unrhyw gais.